Gweithredu agweddau ôl-16 ar Anghenion Dysgu Ychwanegol

Diwygio (ADY) mewn sefydliadau addysg bellach

Hydref 2025

Cynnwys

Cyd-destun 1

Canfyddiadau allweddol 1

Cyfrifoldebau statudol 1

Cynlluniau Datblygu Unigol (CDUau) 3

Gweithio gyda rhanddeiliaid 4

Cymorth i ddysgwyr 4

Sicrhau ansawdd a dysgu proffesiynol 5

Darpariaeth ddysgu ychwanegol ar gyfer dysgwyr sy'n siarad Cymraeg fel eu hiaith gyntaf 5

Cipluniau 6

Cwestiynau hunanfyfyrio ar gyfer colegau 7

Cyd-destun

Yn ystod tymor yr hydref 2024 a thymor y gwanwyn 2025, cafodd sefydliadau addysg bellach (SABau) ymweliad gan eu harolygwyr cyswllt Estyn ac arolygydd sydd â phrofiad mewn gweithio gyda dysgwyr sydd ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY). Yn ystod pob ymweliad, cyfarfu arolygwyr â staff allweddol i drafod gweithredu cyfrifoldebau statudol colegau yn barhaus o dan Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018.

Mae'r adroddiad hwn yn defnyddio trafodaethau o'r cyfarfodydd hyn ynghyd â thystiolaeth o weithgarwch arolygu i roi diweddariad ar adroddiad mewnwelediadau 2024 Anghenion Dysgu Ychwanegol mewn Colegau Addysg Bellach.

Canfyddiadau allweddol

Mae gan bron bob coleg strwythurau a phrosesau sefydledig ar waith i ddiwallu anghenion dysgwyr â chynlluniau datblygu unigol (CDUau).

Dywed bron pob un o'r colegau fod yr amser a gymerwyd i gyflawni eu rhwymedigaethau wedi mynd y tu hwnt i ddisgwyliadau a bod pwysau ar feichiau gwaith yn cael eu cymhlethu gan ddiffyg platfform electronig CDU Cymru gyfan yn barhaus.

Mae cydweithio wedi cynyddu, ac mae'r rhan fwyaf o golegau bellach yn gweithio'n effeithiol gydag ysgolion, awdurdodau lleol a rhanddeiliaid ehangach i gynllunio cyfnodau pontio llwyddiannus i'r coleg ar gyfer dysgwyr ag ADY.

Dywed y rhan fwyaf o golegau fod cynnydd yn nifer y dysgwyr sydd angen cymorth na nodwyd yn ffurfiol bod ganddynt ADY neu sydd wedi dewis peidio â chael CDU.

Cyfrifoldebau statudol

Mae llawer o golegau bellach yn cyfleu'n effeithiol y ddarpariaeth ddysgu ychwanegol (DDdY) y gallant ei chynnig i ddysgwyr ag ADY, ochr yn ochr â'r cymorth sydd ar gael yn y coleg, fel arfer. Mae ychydig o golegau'n cynnwys y wybodaeth hon ar eu gwefannau neu wedi datblygu pamffledi.

Mae ychydig o golegau'n ansicr ynglŷn â'r diffiniad o 'ddarpariaeth ddysgu gyffredinol' a sut mae'n cysylltu â'u cyfrifoldebau statudol. Yn rhy aml, mae hyn yn cael effaith negyddol ar brosesau gwneud penderfyniadau ynghylch p'un a oes gan ddysgwr ADY neu a ellir diwallu ei anghenion heb CDU.

Dywed lleiafrif o golegau fod disgwyliadau gan awdurdodau lleol y dylent ddiwallu ystod ehangach o ADY o fewn eu darpariaeth medrau byw yn annibynnol (MBA) nag yr oeddent yn eu diwallu yn y gorffennol o dan y system Anghenion Addysgol Arbennig (AAA), ei fod yn ymestyn adnoddau ac/neu ei fod yn afrealistig. I'r gwrthwyneb, dywed lleiafrif o golegau eraill eu bod wedi cynyddu eu capasiti a'u harbenigedd yn effeithiol i ddiwallu anghenion dysgwyr ag ystod ehangach o ADY. Mae'r gwahaniaethau hyn mewn dull wedi arwain at anghysondeb parhaus ledled Cymru yn amrywiaeth yr ADY y gellir eu diwallu gan y sector sefydliadau addysg bellach.

Yn sgil dull sianelu Llywodraeth Cymru ar gyfer gweithredu agweddau ôl-16 ar ddiwygio ADY, mae nifer gyffredinol y dysgwyr mewn colegau â CDUau yn cynyddu bob blwyddyn ac mae hyn yn rhoi pwysau ar golegau i gyflawni eu rhwymedigaethau statudol o fewn cyfnodau amser disgwyliedig.

Dywed lleiafrif o golegau fod dysgwyr yn dal i gyrraedd y coleg gyda chynlluniau dysgu a medrau (CDMau) a oedd yn cael eu defnyddio o dan y system AAA pan ddylai fod ganddynt CDUau. Yn ychwanegol, dywed colegau nad oes CDUau gan ddysgwyr sy'n ymuno o ddarpariaeth amgen a darpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol (AHY), yn aml. O ganlyniad i'r senarios hyn, rhaid i golegau ddechrau prosesau statudol, ac mae hyn yn ychwanegu at feichiau gwaith staff.

Dywedodd ychydig iawn o golegau wrthym nad yw'r ddarpariaeth ddysgu ychwanegol a ddisgrifir mewn CDUau ar gael yn y coleg, o dro i dro. Er enghraifft, cludiant i'r coleg, ac oddi yno. Dywedodd colegau fod heriau weithiau oherwydd nad yw darpariaeth yn cael ei disgrifio mewn iaith a rennir, er enghraifft dysgwyr yn cyrraedd gydag ymyriadau penodol sy'n cael eu henwi yn eu CDUau, pan allai colegau gyflenwi cymorth tebyg neu gyfatebol gan ddefnyddio gwahanol derminoleg. Dywedon nhw wrthym ni hefyd fod y disgwyliad y bydd y dysgwr yn mynychu'r coleg yn parhau yn y naill a'r llall o'r amgylchiadau hyn. Mae hyn yn creu perygl na fydd anghenion dysgwyr yn cael eu diwallu.

Dywedodd bron pob un o'r colegau wrthym fod y diffyg parhaus o ran platfform electronig CDU Cymru gyfan ar gyfer rhannu gwybodaeth yn gyson yn niweidiol i'w gallu i asesu a diwallu ADY dysgwyr mewn modd amserol. Dywedodd llawer o golegau y bu'n anodd dod o hyd i wybodaeth cyn mynediad am ddysgwyr a bod gwybodaeth gan ysgolion ac awdurdodau lleol weithiau'n cael ei dal yn ôl oherwydd pryderon diogelu data. Dywedodd un coleg wrthym, er mwyn goresgyn hyn, ei fod yn annog rhieni i lanlwytho CDUau i borth rhieni er mwyn i'r coleg allu cael gwybodaeth hanfodol.

Dywedodd tua hanner y colegau fod cynlluniau dysgu a medrau yn cynnwys gwybodaeth fwy perthnasol am y sector ôl-16 na CDUau a bod hyn wedi effeithio ar eu gallu i gynllunio i ddiwallu ADY dysgwyr unigol.

Cynlluniau Datblygu Unigol (CDUau)

Dywedodd colegau fod CDUau ar eu cryfaf pan mae ysgolion, colegau ac awdurdodau lleol yn cydweithio. Er enghraifft, pan estynnir gwahoddiad i gynrychiolwyr colegau fynychu cyfarfodydd adolygu Blwyddyn 9 a Blwyddyn 10, a chyfrannu atynt. Pan fydd dysgwyr yn cyrraedd y coleg o ysgolion nad ydynt yn bwydo'r coleg neu o'r tu allan i'r sir, dywedodd colegau fod CDUau yn fwy tebygol o gyrraedd yn hwyr a bod gwybodaeth hanfodol ar goll ohonynt. Mewn ychydig o achosion, mae hyn wedi achosi i ddysgwyr roi'r gorau i ddilyn cyrsiau oherwydd bod y coleg yn ddiarwybod wedi methu diwallu eu ADY. Roedd prosesau ar gyfer ailasesu DDdY dysgwyr yn yr amgylchiadau hyn yn aneglur.

Dywedodd lleiafrif o golegau nad oedd deilliannau dysgu bwriadedig dysgwyr mewn CDUau weithiau'n briodol i leoliadau ôl-16 neu'n cyd-fynd â dyheadau unigolion. Pan fydd hyn yn digwydd, mae fel arfer oherwydd nad yw colegau wedi cael eu cynnwys yn adolygiadau pontio dysgwyr.

Dywedodd mwyafrif o golegau, er mwyn iddynt sicrhau bod anghenion addysg a hyfforddiant dysgwyr yn cael eu deall ac y gellir cynllunio cyfnodau pontio cadarnhaol ar ôl y coleg, bod angen adolygiadau CDU ar gyfer dysgwyr blwyddyn gyntaf ac ar gyfer y rhai sy'n gadael y coleg yn nhymor yr hydref. Mae hyn yn rhoi pwysau ar feichiau gwaith staff ar adeg brysur o'r flwyddyn academaidd.

Dywedodd ychydig o golegau fod cyfyngiadau amser wedi achosi iddynt gynnal cyfarfodydd adolygu CDUau ar-lein yn hytrach nag wyneb yn wyneb. Maent wedi dweud wrthym, er bod hyn yn ateb ymarferol, ei fod yn groes i nodau'r diwygiadau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac y byddai'n well ganddynt allu rhoi mwy o ddewis i ddysgwyr.

Dywedodd bron pob un o'r colegau fod anghysondebau yn ansawdd y wybodaeth mewn CDUau ac yn amseroldeb derbyn y dogfennau. Dywedodd lleiafrif o golegau fod gwybodaeth yn aml wedi dyddio ac nad oedd yn berthnasol mwyach. Er enghraifft, roeddent yn cynnwys ffotograffau o ddysgwyr yn blant iau a manylion am heriau ymddygiadol nad oedd y dysgwr yn eu dangos mwyach.

Dywedodd lleiafrif o golegau nad oedd CDUau yn cynnwys gwybodaeth hanfodol am ADY dysgwyr mewn ychydig o achosion. Er enghraifft, nid oedd CDU un dysgwr â nam ar y golwg yn cyfeirio o gwbl at ei anabledd. O ganlyniad, dywedodd un coleg ei fod wedi ychwanegu pennawd CDU, sef 'diagnosis sylweddol a phrif angen', i sicrhau bod staff yn y coleg yn gallu deall ADY dysgwyr.

Gweithio gyda rhanddeiliaid

Mae'r rhan fwyaf o golegau yn gweithio'n rhagweithiol gydag ysgolion ac awdurdodau lleol. Er enghraifft, trwy fod yn rhan o weithgorau amlasiantaethol, mynychu fforymau Cydlynwyr Anghenion Dysgu Ychwanegol (CydADY) rhanbarthol a chysylltu â swyddogion arweiniol ôl-16 awdurdodau lleol.

Mae mwyafrif o golegau wedi datblygu perthnasoedd effeithiol â'u Swyddogion Arweiniol Clinigol Dynodedig Addysg (SACDA) rhanbarthol sydd wedi hwyluso cymorth ar gyfer anghenion iechyd dysgwyr a hyfforddiant staff. Fodd bynnag, mae lleiafrif o golegau wedi dweud wrthym fod gwahanol Swyddogion Arweiniol Clinigol Dynodedig Addysg yn darparu gwahanol lefelau o gymorth, a gall hyn fod yn rhwystredig wrth ddiwallu anghenion iechyd neu therapiwtig dysgwyr yn y cyfnod amser angenrheidiol. Er enghraifft, pan fydd angen cymorth lleferydd ac iaith neu gymorth ymddygiadol ar ddysgwr i ddiwallu ei ADY neu os oes angen ymyriadau ar y dysgwr i ddiwallu anghenion iechyd meddwl. Amlygon nhw'r modd y mae'r symud o wasanaethau iechyd plant i oedolion yn gallu cyd-daro â chyfnodau pontio i goleg. Mae hyn yn golygu efallai na fydd rhai dysgwyr yn gymwys i gael cymorth therapiwtig penodol mwyach, a bod cyfnodau amser atgyfeirio ac asesu newydd yn gallu mynd yn fwy na chyfnod dysgwyr yn y coleg.

Cymorth i ddysgwyr

Mae llawer o golegau yn rhoi cymorth cyson i ddysgwyr ag ADY ar draws eu campysau a'u cynigion cwricwlwm. Fodd bynnag, mewn lleiafrif o achosion, nid yw mynediad at ddarpariaeth ddysgu ychwanegol ar gyfer dysgwyr rhan-amser a dysgwyr yn y gwaith wedi'i ddatblygu'n ddigonol.

Mae'r rhan fwyaf o golegau'n gweld cynnydd yn nifer y dysgwyr sy'n dechrau yn y coleg sydd wedi cyflawni lefel un Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru (FfCChC) o ran eu cyrhaeddiad blaenorol. Efallai nad oes gan lawer o'r dysgwyr hyn ADY, ond mae angen cymorth arnynt i feithrin eu gwydnwch, eu medrau cymdeithasol a'u medrau bywyd. Mae ychydig o golegau'n defnyddio rhaglenni datblygu heb eu hachredu gan ddefnyddio prosesau RARPA (cydnabod a chofnodi cynnydd a chyflawniad) i ddatblygu a monitro medrau dysgwyr. Dywed colegau fod y dysgwyr hyn yn cwblhau hyn ochr yn ochr â chyrsiau achrededig, lle bo'n briodol.

Mae llawer o golegau'n darparu trefniadau pontio estynedig ar gyfer dysgwyr ag ADY. Mae hyn yn cynnwys diwrnodau rhagflas, ymweliadau, teithiau tawel ac arsylwadau gwersi.

Mae nifer y dysgwyr sydd angen cymorth i wneud arholiadau yn parhau i godi yn y rhan fwyaf o golegau.

Sicrhau ansawdd a dysgu proffesiynol

Mae llawer o golegau bellach wedi datblygu prosesau arsylwi addysgu a dysgu i gynnwys asesiadau o sut caiff ADY eu diwallu.

Mae bron pob un o'r colegau wedi cynyddu cyfleoedd dysgu proffesiynol yn gysylltiedig ag ADY ar gyfer staff addysgu. Fodd bynnag, mae cyfleoedd i ddatblygu gwybodaeth broffesiynol a medrau cymorth dysgu staff yn llai cyffredin. At ei gilydd, nid yw gallu colegau i ddangos tystiolaeth o effaith dysgu proffesiynol ar ddeilliannau dysgwyr wedi'i ddatblygu'n ddigonol o hyd.

Mae bron pob coleg wedi datblygu dulliau effeithiol ar gyfer mesur cynnydd dysgwyr ar raglenni astudio heb eu hachredu. Mewn ychydig o golegau, caiff y systemau hyn eu hintegreiddio i systemau sicrhau ansawdd ar draws y coleg. Fodd bynnag, mewn ychydig o golegau, sylwom nad oedd gwerthusiadau o gynnydd dysgwyr ag ADY yn ystyried dysgwyr ag ADY yn unig, ond hefyd y dysgwyr hynny sy'n manteisio ar gyllid cymorth dysgu ychwanegol.

Mae lleiafrif o golegau'n integreiddio adborth dysgwyr a data cyrhaeddiad o fewn prosesau sicrhau ansawdd ac mae hyn yn cryfhau eu gallu i werthuso effaith eu darpariaeth ar ddeilliannau dysgwyr yn effeithiol.

Darpariaeth ddysgu ychwanegol ar gyfer dysgwyr sy'n siarad Cymraeg fel eu hiaith gyntaf

Mar darpariaeth ddysgu ychwanegol trwy gyfrwng y Gymraeg yn parhau'n amrywiol. Mae lleiafrif o golegau'n cynnig darpariaeth ddysgu ychwanegol sy'n gwbl ddwyieithog.

Dywedodd lleiafrif ohonynt wrthym fod darpariaeth cyfrwng Cymraeg ar gael, ond bod dysgwyr yn dewis cael eu haddysgu yn Saesneg.

Cipluniau

Cydweithio: Mae'r rhan fwyaf o golegau bellach yn rhan o fforymau amlasiantaethol sy'n cynnwys Cydlynwyr ADY ysgolion, cynrychiolwyr iechyd, awdurdodau lleol a cholegau. Mae'r dull cydweithredol hwn yn cefnogi rhannu gwybodaeth a chynllunio pontio amserol.

Dysgwyr sydd mewn perygl o beidio â bod mewn addysg a hyfforddiant (NACH): mae un coleg yn gweithio'n agos gyda'i awdurdod lleol i nodi dysgwyr sydd mewn perygl, gan gynnwys y rhai sydd wedi profi addysg heblaw yn yr ysgol, dysgwyr sydd wedi mynychu unedau cyfeirio disgyblion (UCDau) neu rai oedd ag amserlenni wedi'u haddasu yn yr ysgol. Yn nodweddiadol, mae gan y dysgwyr hyn ADY wedi'i nodi neu heb ei nodi ac mae'r coleg yn darparu gweithgareddau pontio estynedig, yn cynnwys ysgolion haf. Mae coleg arall yn cynnal byrddau dilyniant bob chwe wythnos sy'n gallu nodi dysgwyr sydd mewn perygl o roi'r gorau i ddilyn eu rhaglenni.

Diwallu ADY dysgwyr: dywedodd lleiafrif o golegau eu bod wedi creu 'paneli cynhwysiant' sy'n rhannu gwneud penderfyniadau ar b'un a yw coleg yn gallu diwallu ADY unigolion. Maent yn gweithio gyda Chydlynwyr ADY a swyddogion awdurdodau lleol i sicrhau bod penderfyniadau'n cael eu gwneud yn amserol ar gyfer dysgwyr na all y coleg ddiwallu eu ADY, er mwyn i awdurdodau lleol allu cynnal CDUau y dysgwyr hyn.

Gwerthuso addysgu a dysgu ar gyfer dysgwyr ag ADY: mae un coleg yn monitro cyrhaeddiad a dilyniant dysgwyr ar draws ystod o nodweddion gwarchodedig, gan gynnwys ADY. Yn ychwanegol, mae staff addysgu'n hunanasesu eu cryfderau a'u meysydd i'w datblygu, gan weithio mewn triawdau gyda chydweithwyr sy'n brofiadol yn y medrau y maent eisiau eu datblygu i wella'u harfer.

Gwybodaeth ac arweiniad: mae un coleg wedi creu pamffled pontio ar gyfer dysgwyr sydd â symbolau ac ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg. Mae'n cynnwys gwybodaeth am beth ddylai dysgwyr ei ddisgwyl a chodau QR i ddysgwyr fynd ar deithiau rhithwir o'r campws.

Dysgwyr yn y gwaith sydd ag ADY: mewn un coleg, mae gan y CydADY gyfrifoldeb am sicrhau bod darparwyr dysgu yn y gwaith yn deall ADY dysgwyr ac yn gallu eu diwallu.

Cwestiynau hunanfyfyrio ar gyfer colegau

1. Sut ydych chi'n sicrhau perthynas gynhyrchiol ag awdurdodau lleol i gynorthwyo dysgwyr presennol a chynllunio ar gyfer carfanau yn y dyfodol?
2. Sut ydych chi'n gwerthuso ansawdd yr addysgu a phrofiadau dysgu ar gyfer dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol ar draws yr holl ddarpariaeth?
3. Sut ydych chi'n cynllunio ar gyfer dysgu proffesiynol yn gysylltiedig ag ADY? Sut ydych chi'n gwerthuso'r effaith a gaiff hyn ar ddysgwyr?
4. A yw pob un o'r dysgwyr yn cael mynediad cyfartal at gymorth ADY? A yw hyn yn cynnwys y dysgwyr hynny sydd ar gofrestr y coleg a darpariaeth arall a ariennir gan y llywodraeth, dysgwyr SSIE neu ddysgwyr sy'n siarad Cymraeg fel eu hiaith gyntaf?
5. Sut ydych chi'n sicrhau bod gan ddysgwyr newydd CDUau sy'n berthnasol i'w cwrs astudio a'u dyheadau yn y dyfodol?